SNOWDONIA NATIONAL PARK

Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Llwybr Cwellyn, Yr Wyddfa

**ANODD/LLAFURUS**




### Trosolwg o'r Daith

- Pellter: 13km (8 milltir)
- Hyd: 6 awr
- Math o daith: Yno ac yn ôl

### ⚠ Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.


eryri.llyw.cymru




V-20231127/2018




Ar yr ochr draw i'r ffordd ar y dde o geg y maes parcio fe welwch arwydd llwybr ceffyl. Dilynwch yr arwydd sy'n eich cyfeirio ar hyd llwybr sy'n arwain i'r dde o fynedfa Cae'r Orsaf. Ewch drwy'r giât ac yna i'r chwith ar hyd llwybr wedi ei ffensio bob ochr. Ewch drwy giât arall a throwch i'r dde dros y trac trên a thrwy'r giât ger y grid gwartheg, ac ymlaen am ffermdy Llwyn Onn.





Ar ôl mynd heibio'r ffermdy bydd y llwybr yn fforchio. Ewch i'r dde a thrwy'r giât. Cyn bo hir, fe ddewch at giât arall ac yna bydd y llwybr yn dringo'n igam ogam i fyny'r ffridd. Cadwch at y llwybr a pheidiwch â thorri ar draws er mwyn gwneud y daith yn fyrrach – dim ond ar hyd y llwybr cyhoeddus mae gennych chi'r hawl i gerdded.




Ar ben uchaf y darn igam-ogam byddwch yn mynd trwy giât arall. Ar y chwith i chi mae Moel Goch a Moel Cynghorhion, a Bwlch Maesgwm rhwng y ddau. Mae llwybr cyhoeddus yn arwain i Fwlch Maesgwm ac ymlaen i Lanberis o'r fan yma. Rydych chi angen mynd yn syth ymlaen.




Ymhen ychydig fe fyddwch yn mynd trwy giât arall yr ochr draw i nant fyrlymus. O'r giât bydd y llwybr yn gwyro i'r chwith o amgylch llethrau isaf Moel Cynghorion. Mae llwybr cyhoeddus arall yn arwain oddi yma i Lanberis trwy Fwlch Maesgwm.





Wedi i chi gerdded o amgylch pen gogleddol Llyn Ffynnon y Gwas fe fyddwch ym Mwlch Cwm Brwynog.




O Fwlch Cwm Brwynog bydd y llwybr yn dringo'n hynod o serth ac yn rhydd dan draed bron yr holl ffordd i'r copa felly cymerwch ofal o hyn ymlaen. Wedi i chi ddilyn ymyl Llyn Ffynnon y Gwas am sbel, bydd y llwybr yn dringo'n igam ogam ac yn serth i fyny'r ysgwydd uwchben Clogwyn Du'r Arddu.

7



Uwchlaw Clogwyn Du'r Arddu bydd y llwybr yn dringo'n fwy gwastad ond heb ei ddiffinio'n dda felly cymerwch bwyll yma, yn enwedig os bydd yn dywydd niwlog neu aeafol. Ymhen ychydig bydd y llwybr yn dechrau dringo eto ond yn fwy cadarn dan droed. Yn y man fe ddewch at faen hir sy'n dynodi'r man lle mae'r llwybr yn croesi Rheilffordd yr Wyddfa (cofiwch amdani ar eich ffordd i lawr – yn enwedig os bydd niwl gan y gall dod o hyd i ddechrau'r llwybr fod yn anodd fel arall).

8



O'r maen hir, croeswch lein Rheilffordd yr Wyddfa a cherddwch yn syth ymlaen nes y dewch at faen hir arall sy'n nodi'r man y mae Llwybr Cwellyn yn ymuno â Llwybr Llanberis.

9



Dilynwch y llwybr i fyny i'r dde ac ar ôl cerdded rhyw 50 metr fe ddowch at faen hir arall llawer mwy ym Mwlch Glas. Mae'r faen hon yn nodi'r fan y mae llwybrau Pyg a'r Mwynwyr yn ymuno â llwybrau Llanberis a Chwellyn. O'r maen hir, ewch yn syth ymlaen - wrth gerdded ar gyflymder hamddenol, gallwch ddisgwyl bod ar y copa ymhen rhyw chwarter awr.

10



O'r copa ar ddiwrnod clir, cewch eich gwobrwyo â golygfeydd anhygoel - mae'n bosib gweld 18 o lynnoedd ac 14 copa dros 914m (3000 troedfedd). Weithiau, gallwch hyd yn oed weld mor bell â'r Iwerddon, Ynys Manaw ac Ardal y Llynnoedd.